**LC374**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngu'r Defnydd ar Beledi Plwm) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwahardd defnyddio peledi plwm mewn mannau islaw'r marc penllanw, mewn safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, ac mewn perthynas ag adar gwyllt a restrir.

Gwnaed darpariaeth debyg ei heffaith ar gyfer Lloegr mewn rheoliadau a ddaeth i rym ar 1 Medi 1999 (OS 1999 Rhif 2170).

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

Sylwyd mewn perthynas â Rheoliad 4(2)(d) ac (e) yn rheoliadau Lloegr sy'n cael yr un effaith â Rheoliad 4(2)(ch) a (d) yn rheoliadau Cymru, bod y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol wedi mynegi amheuaeth o ran vires. Mae'r adroddiad (Sesiwn 1999-2000, Adroddiad Cyntaf) yn nodi bod y pwer galluogi yn ymwneud yn unig â chymryd "articles or substances”. Nodir bod achos ym 1954 ar Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1936 yn dangos na ellir ystyried creadur byw yn "article". Gan hynny, yr oedd yn amheus a oedd yn briodol cymhywso paragraffau (d) ac (e) at adar gwyllt wedi'u hanafu.

Er hynny, gan roi sylw i'r ffaith fod rheoliadau Lloegr yn parhau mewn grym fel y cawsant eu drafftio, a chan ystyried y gallai'r Llysoedd ddyfarnu bod y ddarpariaeth bresennol yn

gwahaniaethu oddi wrth yr un sy'n codi mewn perthynas â Deddf Iechyd Cyhoeddus 1936, cymerir yr agwedd nad yw'n briodol cyflwyno adroddiad, mewn perthynas â rheoliadau Cymru, fod y ddarpariaeth o dan sylw y tu allan i'r pwerau galluogi.

Hysbyswyd y cyfreithiwr drafftio am ddau bwynt teipograffyddol.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

27 Tachwedd 2001